

Datganiad Gweithredu

Cynllun Pensiwn Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig

Cyflwyniad

Paratowyd y datganiad hwn gan Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig ('y Cynllun'), i ddangos sut y mae'r Ymddiriedolwyr wedi gweithredu ar rai polisiau yn eu Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi ('SIP'). Gelwir y ddogfen hon yn Ddatganiad Gweithredu'r Cynllun.

Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr gynhyrchu Datganiad Gweithredu sy'n dangos sut y maent wedi dilyn rhai polisiau o fewn eu SIP dros flwyddyn y Cynllun. Mae'r Datganiad Gweithredu hwn yn cwmpasu blwyddyn y Cynllun o 6 Ebrill 2020 i 5 Ebrill 2021.

Mae'r Datganiad Gweithredu hwn wedi'i baratoi yn unol â Diwygiadau Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Buddsoddi a Datgelu) 2005 ac mae'n ymwneud â'r buddsoddiadau Buddion Diffiniedig ('DB') a ddelir gan y Cynllun. Sylwch nad yw hyn yn cynnwys unrhyw fuddsoddiadau Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol a ddelir gan y Cynllun.

Mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr cynlluniau pensiwn DB ddarparu manylion ynghylch sut, ac i ba raddau, y dilynwyd eu polisiau SIP ar ymgysylltu â chwmnïau y buddsoddir ynddynt yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys disgrifiad o'u hymddygiad pleidleisio, y pleidleisiau mwyaf arwyddocaol a fwrwyd ac unrhyw ddefnydd o bleidleisiwr dirprwyol ar eu rhan dros y flwyddyn.

Polisiau SIP

Dylid darllen y datganiad gweithredu hwn ar y cyd â SIP y Cynllun ar gyfer y flwyddyn dan sylw, sy'n rhoi manylion polisiau buddsoddi'r Cynllun ynghyd â manylion am strwythur llywodraethu ac amcanion y Cynllun. Diweddarwyd SIP y Cynllun ym mis Medi 2020 i gynnwys polisiau ar:

- Sut mae 'ystyriaethau ariannol perthnasol' gan gynnwys ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ("ESG") yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau buddsoddi ar gyfer y Cynllun.
- I ba raddau y mae materion anariannol yn cael eu hystyried yn y broses o wneud penderfyniadau buddsoddi.
- Stiwardiaeth a phleidleisio – gan gynnwys manylion ar fonitro ac ymgysylltu â'r cwmnïau y maent yn buddsoddi ynddynt (a rhanddeiliaid perthnasol eraill) ar faterion perthnasol (gan gynnwys perfformiad, strategaeth, risgiau, llywodraethu corfforaethol ac ESG).

Er nad oedd y polisiau ar waith ar gyfer blwyddyn lawn y Cynllun, mae'r Datganiad Gweithredu hwn yn adolygu'r gweithgareddau pleidleisio ac ymgysylltu dros y cyfnod o 12 mis hyd at ddiwedd blwyddyn y Cynllun ac i ba raddau y mae'r Ymddiriedolwyr yn credu bod y polisiau newydd wedi'u dilyn.

Mae'r Cynllun yn buddsoddi mewn cronfeydd cyfun a reolir gan Legal & General Investment Management ("LGIM") (y "Rheolwr Buddsoddi").

Yn y SIP diwygiedig, nododd yr Ymddiriedolwyr y polisiâu a ganlyn ar arfer hawliau pleidleisio a gweithgareddau ymgysylltu yn ymwneud â'u buddsoddiadau:

- “Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu'r datganiadau llywodraethu corfforaethol a gyhoeddwyd gan eu rheolwr cronfa ac yn monitro gweithgarwch pleidleisio yn rheolaidd.

Polisi'r Ymddiriedolwyr yw buddsoddi mewn cyfryngau buddsoddi cyfun. Y Rheolwr Buddsoddi sy'n gyfrifol am arfer yr hawliau (gan gynnwys hawliau pleidleisio) sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiadau hyn.

Polisi'r Ymddiriedolwyr mewn perthynas ag unrhyw hawliau (gan gynnwys hawliau pleidleisio) sy'n gysylltiedig â'i fuddsoddiadau yw arfer yr hawliau hynny i ddiogelu gwerth buddiannau'r Cynllun yn y buddsoddiadau, gan roi sylw i gyngor priodol.”

- “Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod pwysigrwydd monitro perfformiad y Rheolwr Buddsoddi yn rheolaidd, ei dâl a'i gydymffurfiaeth â pholisi'r ESG er mwyn sicrhau bod asedau'r Gronfa'n cael eu rheoli'n briodol. Bydd monitro a chyfathrebu rheolaidd gyda'r Rheolwr Buddsoddi, gan gyfeirio'n benodol at ffactorau ESG, yn cymhell Rheolwr Buddsoddi'r Cynllun i asesu a gwella perfformiad tymor canolig i hirdymor y cwmnïau y buddsoddir ynddynt, yn ariannol ac anariannol.”
- “Yn ogystal â mesurau perfformiad, bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu gweithgarwch ymgysylltu'r Rheolwr Buddsoddi i sicrhau bod ymgysylltu gweithredol yn digwydd lle bo'n bosibl i ddylanwadu ar newid cadarnhaol mewn perthynas â ffactorau ESG o fewn cwmnïau buddsoddi. Bydd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn monitro gweithgarwch pleidleisio'r Rheolwr Buddsoddi i sicrhau bod pleidleisiau'n cael eu defnyddio a'u bod yn cyd-fynd â'u barn ar ESG.”
- “Os yw'r Ymddiriedolwyr yn credu nad yw Rheolwr Buddsoddi'r Cynllun bellach yn gweithredu'n unol â pholisiâu'r Ymddiriedolwyr, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ESG ac ymgysylltu â sefydliadau y buddsoddir ynddynt i asesu a gwella eu perfformiad ariannol ac anariannol tymor canolig i hir, bydd yr Ymddiriedolwyr yn cymryd y camau canlynol:
 - ymgysylltu â'r Rheolwr Buddsoddi yn y lle cyntaf, mewn ymgais i ddylanwadu ar ei bolisiâu ar ESG a stiwardiaeth; ac
 - os oes angen, edrych i benodi Rheolwr Buddsoddi neu reolwyr newydd sy'n cyd-fynd yn agosach â pholisiâu a safbwyntiau'r Ymddiriedolwyr.”

Disgrifiad o ymddygiad pleidleisio

Dros y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2021, buddsoddwyd y Cynllun mewn un mandad lle roedd yr asedau sylfaenol yn cynnwys soddgyfrannau a restrwyd yn gyhoeddus. Dyma ddosbarth cyfrannau rhagfantol sterling Cronfa Fynegai Ecwiti Byd Cyfan a reolir gan LGIM.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu ac yn monitro'r gweithgarwch pleidleisio ac ymgysylltu a wneir gan y rheolwr buddsoddi (LGIM) ar eu rhan. Mae gwybodaeth a gyhoeddwyd gan LGIM yn rhoi cysur i'r Ymddiriedolwyr bod eu polisiâu pleidleisio ac ymgysylltu wedi'u dilyn yn ystod y flwyddyn. Mae'r tabl a ganlyn yn dangos crynodeb pleidleisio LGIM sy'n cwmpasu buddsoddiad y Gronfa yn y Gronfa Fynegai Ecwiti Byd Cyfan. Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr am wybodaeth pleidleisio gan LGIM ar gyfer y cyfnod o 12 mis hyd at 5 Ebrill 2021, ond dim ond ar ddiwedd y chwarter y gallai LGIM ddarparu gwybodaeth felly rydym wedi dangos y cyfnod o 12 mis hyd at 31 Mawrth 2021.

Cronfa FyNEGAI Ecwiti Byd Cyfan LGIM - GBP Wedi Sicrhau	1 Ebrill – 31 Mawrth 2021
Nifer y cyfarfodydd yr oedd LGIM yn gymwys i bleidleisio ynddynt dros y flwyddyn hyd at 31/3/2021	6,779
Nifer y penderfyniadau yr oedd LGIM yn gymwys i bleidleisio arnynt dros y flwyddyn hyd at 31/3/2021	70,672
O'r penderfyniadau cymwys, y ganran y pleidleisiodd LGIM arni.	99.9%
O'r penderfyniadau a bleidleisiodd, y ganran y pleidleisiodd LGIM gyda'r rheolwyr.	83.2%
O'r penderfyniadau a bleidleisiodd, canran y pleidleisiodd LGIM yn erbyn rheolwyr.	16.0%
O'r penderfyniadau a bleidleisiwyd, canran lle'r oedd LGIM wedi ymatal .	0.8%

Wrth benderfynu ar bleidleisiau arwyddocaol, mae tîm Stiwardiaeth Buddsoddiadau LGIM yn ystyried y meini prawf a ddarperir gan ganllawiau'r Gymdeithas Pensiynau ac Arbedion Oes (PLSA). Mae hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Pleidlais proffil uchel sydd ag elfen ddadleuon i'r fath raddau fel bod llawer o graffu gan gleientiaid a/neu gyhoeddus;
- Diddordeb cleient sylweddol mewn pleidlais: yn cael ei gyfleu'n uniongyrchol gan gleientiaid i'r tîm Stiwardiaeth Buddsoddiadau yn nigwyddiad bord gron blyneddol LGIM i Randdeiliaid, neu lle mae LGIM yn nodi cynnydd sylweddol mewn ceisiadau gan gleientiaid ar bleidlais benodol;
- Pleidlais sancsiwn o ganlyniad i ymgysylltiad uniongyrchol neu gydweithredol;
- Pleidlais yn gysylltiedig ag ymgyrch ymgysylltu LGIM, yn unol â themâu ymgysylltu blaenoriaeth ESG 5 mlynedd Stiwardiaeth Buddsoddiad LGIM.

Roedd dadansoddiad o'r pleidleisiau sylweddol a wnaed gan LGIM ar gyfer y Gronfa FyNEGAI Ecwiti Byd Cyfan yn cynnwys yn bennaf bleidleisio yn erbyn cymeradwyo adroddiadau cydnabyddiaeth rheolwyr a chynlluniau cymhellion hirdymor yn ogystal â chymeradwyo penderfyniadau newid hinsawdd.

Sut y dilynwyd polisiau ymgysylltu

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu ac yn monitro'r gweithgarwch pleidleisio ac ymgysylltu a wneir ar eu rhan yn flynyddol. Mae'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan y Rheolwr Buddsoddi wedi rhoi cysur i'r Ymddiriedolwyr bod eu polisiau pleidleisio ac ymgysylltu wedi'u dilyn yn ystod y flwyddyn.

Ymgysylltu â chwmnïau y buddsoddir ynddynt

Nid arfer hawliau pleidleisio yw'r unig dull o ddylanwadu ar ymddygiadau cwmnïau y buddsoddir ynddynt. Gall buddsoddiadau nad ydynt yn ecwiti fel daliadau bond corfforaethol y Gronfa hefyd gynnwys gweithgareddau ymgysylltu ond nid oes gan y buddsoddiadau hyn hawliau pleidleisio.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i'r rheolwr buddsoddi ymgysylltu â chwmnïau y buddsoddir ynddynt ar agweddau megis perfformiad, strategaeth, strwythur cyfalaf, rheoli gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl, risgiau, llywodraethu corfforaethol, materion cymdeithasol ac amgylcheddol yn ymwneud â buddsoddiadau'r Ymddiriedolwyr.

Mae gweithgareddau pleidleisio ac ymgysylltu LGIM yn cael eu gyrru gan weithwyr proffesiynol ESG ac mae eu hasesiad o'r gofynion yn y meysydd hyn yn ceisio sicrhau'r canlyniad gorau i gleientiaid. Mae polisiau pleidleisio LGIM yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac yn cymryd adborth cleientiaid i ystyriaeth.

Bob blwyddyn, mae LGIM yn cynnal digwyddiad bord gron i randdeiliaid lle gwahoddir cleientiaid a rhanddeiliaid eraill (cymdeithas sifil, y byd academiaidd, y sector preifat a chyd-fuddsoddwyr) i fynegi eu barn yn uniongyrchol i aelodau tîm Stiwardiaeth Buddsoddiadau LGIM. Mae'r farn a fynegwyd gan fynychwyr yn ystod y digwyddiad hwn yn ystyriaeth allweddol wrth i LGIM barhau i ddatblygu polisiau pleidleisio ac ymgysylltu a diffinio blaenoriaethau strategol.

I ba raddau y dilynwyd polisiau ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn

Ar ôl adolygu'r camau a gymerwyd gan LGIM, mae'r Ymddiriedolwyr yn credu bod eu polisiau ar hawliau ymgysylltu a phleidleisio (lle bo'n berthnasol) wedi'u gweithredu'n briodol ac yn unol â pholisiau'r Rheolwr Buddsoddi dros y flwyddyn. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn parhau i fonitro'r camau a gymerir ar eu rhan bob blwyddyn wrth bwysu am well gwybodaeth gan LGIM, yn enwedig mewn perthynas â ffactorau ESG.

Os bydd y Rheolwr Buddsoddi yn gwyrho'n sylweddol oddi wrth bolisiau datganedig yr Ymddiriedolwyr, bydd yr Ymddiriedolwyr yn ymgysylltu â LGIM i ddechrau ymdrechu i ddylanwadu ar ei bolisiau ar ESG a stiwardiaeth. Os deuir i'r casgliad bod y gwahaniaeth rhwng y polisiau a chamau gweithredu LGIM yn sylweddol, bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried terfynu'r mandad a phenodi rheolwr yn ei le sy'n cyd-fynd yn agosach â pholisiau a safbwyntiau'r Ymddiriedolwyr.